**Canllawiau ar Gylch Gorchwyl Pwyllgorau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd Cyfadrannau/Adrannau/Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol**

**Yn adrodd i'r:** Dylai Pwyllgorau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd Cyfadrannol neu Adrannol adrodd i Bwyllgor Gweithredol y Gyfadran berthnasol.

Dylai Pwyllgorau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol adrodd i Uwch Grŵp Rheoli yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol berthnasol.

Dylid dosbarthu cofnodion ac/neu bwyntiau gweithredu pob cyfarfod i'r holl aelodau, a dylent fod ar gael i staff y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol lle bo'n briodol, yn unol â dulliau cyfathrebu arferol. Efallai yr hoffai Cyfadrannau ac Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol godi materion neu bwyntiau trafod arwyddocaol drwy eu Cynrychiolwyr Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

**Yn cyfarfod:** Argymhellir y dylai Pwyllgorau o'r fath gwrdd o leiaf unwaith y tymor (teirgwaith y flwyddyn), neu'n amlach os bernir bod hynny'n briodol. Pennir pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd Pwyllgorau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd Cyfadrannau/Adrannau/Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol yn unol â disgresiwn Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran/Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol.

**Aelodau:** Pennir aelodaeth neu gyfansoddiad Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol yn unol â disgresiwn Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran/Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol sy'n gyfrifol am faterion Iechyd a Diogelwch o fewn eu Cyfadran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol, yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch y mae'r Brifysgol wedi cytuno arno. Bydd y cyfansoddiad yn sicrhau cynrychiolaeth briodol o'r holl adrannau neu feysydd o fewn y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol, ac yn adlewyrchu lefel briodol ar gyfer y Pwyllgor o ran swyddi'r unigolion dan sylw. Bydd gan bob Cyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol wahanol lefelau a meysydd risg, a dylai'r aelodaeth adlewyrchu'r rhain.

Efallai y bydd Dirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau/Penaethiaid Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol eisiau gweithredu fel Cadeiryddion Pwyllgorau o'r fath, neu efallai y byddant eisiau enwebu unigolyn arall o'r Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol i gyflawni'r rôl honno. Dylai cynrychiolwyr adrannol Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y Brifysgol gael eu cynnwys hefyd yn aelodaeth Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd eu Cyfadran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol priodol.

Dylid gwahodd aelod o'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd i fynychu holl gyfarfodydd Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol mewn capasiti ymgynghorol.

**Cworwm:** Bydd hanner nifer aelodau'r pwyllgor (wedi'i dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan nesaf) gyfystyr â chworwm.

**Cylch gwaith:** Mae Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol yn gyfrifol am gynghori Grŵp Gweithredol y Gyfadran neu'r Adran/Uwch Grŵp Rheoli. Mae'n cynnig fforwm i drafod a monitro materion yn ymwneud ag Iechyd, Diogelwch

a'r Amgylchedd o fewn y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol. Dylai weithredu fel pwyllgor ymgynghorol lle gall cynrychiolwyr diogelwch enwebedig y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol drafod unrhyw bryderon y mae staff yn eu codi ynghylch iechyd, diogelwch neu'r amgylchedd a nodi camau gweithredu priodol pan fo angen. Efallai y bydd Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol sydd wedi'u lleoli o fewn yr un adeilad(au) eisiau sefydlu un pwyllgor sy'n gyfrifol am gyflawni'r cyfrifoldebau canlynol ar ran yr holl adrannau yn yr adeilad hwnnw.

**Cylch Gorchwyl**

1. Derbyn a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau canllaw ar iechyd, diogelwch a'r amgylchedd o fewn y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol.
2. Canfod, monitro ac adolygu peryglon y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol fel y'u nodir o fewn y proffil peryglon a'r matricsau risg.
3. Cynnig amcanion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol i Grŵp Gweithredol y Gyfadran neu Adran/yr Uwch Grŵp Rheoli.
4. Adolygu a monitro hyfforddiant iechyd, diogelwch a'r amgylchedd o fewn y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol.
5. Derbyn unrhyw gamau gorfodi gan asiantaethau gorfodi perthnasol megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; Cyngor Sir Ceredigion; ac Asiantaeth yr Amgylchedd.
6. Derbyn data adrodd ynghylch digwyddiadau, tueddiadau ac adroddiadau ymchwiliadau'r Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol, gan ystyried ac adolygu effeithiolrwydd unrhyw gamau unioni a gymerwyd i atal y sefyllfa rhag codi eto.
7. Ystyried ac adolygu adroddiadau archwilio ac arolygu yn ymwneud â'r Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol, a chefnogi unrhyw welliannau neu ganfyddiadau a nodir.
8. Adolygu asesiadau risg y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol ynghylch peryglon er mwyn cynorthwyo i fonitro perfformiad a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith, polisïau a gweithdrefnau.
9. Derbyn gwybodaeth a chanllawiau ar ddeddfwriaeth, arfer gorau neu arferion gwaith newydd neu ddatblygol a allai effeithio ar iechyd, diogelwch ac amgylchedd gwaith staff y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol.
10. Adolygu a gwneud argymhellion i wella gweithdrefnau brys o fewn y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol.
11. Gofyn am archwiliadau o weithleoedd neu ardaloedd o fewn y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol os yw'r Pwyllgor yn canfod tueddiadau neu sail i ofyn am sicrwydd, ac ag ystyriaethau o ran proffil risg y Gyfadran/Adran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol.